



SINEMATIG

CANLLAWIAU

S4C

 Awarding funds from
The National Lottery®
Film Forever

ffilm
CYMRU WALES

SINEMATIG

Bydd Cinematic yn cynhyrchu tair ffilm o dalent cyffrous Cymru a fydd yn arddangos rhagoriaeth greadigol. Mae'r cynllun y gyfle i ysgrifenywyr, cyfrarwyddwyr a chynhyrchwyr gyda lleisiau eofn ac unigryw wneud ffilmiau nodwedd ar gyllidebau o hyd at £300,000.

Cinematic, ar ei fersiwn cyntaf, lansiodd ymddangosiad cyntaf Craig Roberts, seren *Submarine*, fel cyfarwyddwr yn *Just Jim*, comedi dywyll a gafodd ei dangos gam y tro cyntaf yn SXSW yn 2015, a bydd ffilm arswyd goruwchnaturiol Chris Crow, *The Lighthouse*, yn cael ei rhyddhau'r haf hwn gan Soda Pictures. Yn adnabyddus am ei waith ar raglenni teledu poblogaidd *Broadchurch*, *Hinterland* a *Marvel's Daredevil*, gwnaeth y cyfarwyddwr o Gymro, Euros Lyn, ei ffilm nodwedd gyntaf gyda Y Llyfgell a fydd yn cael ei dangos am y tro cyntaf yng Ngŵyl Ryngwladol Caeredin yn 2016.

CRYNODEB

Diben y cynllun Cinematic yw cefnogi talent gyda ffilmiau nodwedd ffuglennol, neilltuol, y gellir eu gwneud yn llwyddiannus ar gyllidebau o hyd at £300,000.

Byddwn yn chwilio am brosiectau mewn unrhyw genre sy'n cynrychioli'r amrywiaeth o leisiau, themâu a phrofiadau a fydd yn dangos yn llawn amrywiaeth Cymru. Dylai timau gwneuthurwyr ffilmiau allu dangos ymrwymiad a gweledigaeth glir tuag at eu prosiectau yn ogystal ag ymwybyddiaeth o gynulleidfaedd.

Bydd hyd at ddeg tîm yn cael eu dewis i gychwyn ar gyfnod datblygu dwys a byddwn yn dewis hyd at dri phrosiect i fynd ymlaen i'r cyfnod pellach o ddatblygu a chynhyrchu. Bydd Ffilm Cymru Wales yn rhyddhau arian datblygu ar gyfer pob cyfnod.

Bydd Ffilm Cymru Wales hefyd yn buddsoddi tua £180,000 o arian cynhyrchu i bob un o'r tair ffilm derfynol. Fel rhan o'r broses, bydd gofyn i'r timau godi gweddill yr arian drwy gyfuniad o arian credyd treth ymlaen llaw (i'w gyflenwi drwy Fields Park Cyf) a hyd at £100,000 o arian preifat y bydd Ffilm Cymru Wales yn helpu'r timau i'w godi. Bydd un ffilm nodwedd y bwriedir ei ffilmio yn Gymraeg yn gallu cael buddsoddiad o hyd at £100,000 gan S4C.

Mae'r cynllun Cinematic yn bosibl oherwydd arian y Loteri Genedlaethol sy'n cael ei ddarparu gan Ffilm Cymru Wales a BFI.

CYMHWSTER

Gwahoddir ceisiadau oddi wrth dimau o ysgrifenyddwyr, cyfarwyddwyr a chynhyrchwyr.

Dylai unigolion gyfyngu eu hatodiadau i ddim mwy na dau brosiect yn ystod y cyfnod ymgeisio.

Gall timau o bob rhan o'r DU ymgeisio i Cinematic ond bydd yn rhaid i o leiaf un aelod o'r tîm sy'n ymgeisio fod wedi'i eni neu fod yn byw ar hyn o bryd yng Nghymru.

Dylai o leiaf un aelod o'r tîm fod ag o leiaf un credyd proffesiynol yn eu maes, er enghraifft:

Ar gyfer Ysgrifenyddwyr:

Credyd fel ysgrifennwr sgript ar ffilm neu raglen deledu sydd wedi'i chomisiynu neu ei chynhyrchu (byddai drama lwyfan neu radio sydd wedi'i chynhyrchu hefyd yn gymwys).

Ar gyfer Cyfarwyddwyr:

Credyd fel Cyfarwyddwr ar ffilm nodwedd neu ddrama neu raglen nodwedd deledu (sengl neu gyfres). Bydd credydau mewn cyfarwyddo yn y theatr, hysbysebion, hyrwyddo cerddoriaeth ac animeiddiad hefyd yn cael eu hystyried. Neu, ffilm fer sydd wedi'i dewis ar gyfer gŵyl fawr.

Ar gyfer Cynhyrchwyr:

Credyd fel Cynhyrchydd ar ffilm nodwedd neu ddrama neu raglen nodwedd deledu (sengl neu gyfres). Ystyrir hefyd credydau cynhyrchu mewn hysbysebion, hyrwyddo cerddoriaeth ac animeiddiad. Neu, ffilm fer sydd wedi'i dewis ar gyfer gŵyl fawr.

Gellir cyflwyno ceisiadau drwy e-bost unrhyw adeg tan y terfyn amser o Ganol Dydd 30 Medi 2016, gweler www.cinematicwales.com

DEFNYDDIAU

Dylech gyflwyno'r defnyddiau canlynol i gefnogi eich cais:

- Triniaeth fanwl o tua 8-15 tudalen a hefyd grynoded un dudalen o'r prosiect rydych yn ei gyflwyno.
- Os ydych yn cyflwyno triniaeth yn Gymraeg, yna dylech gyflwyno crynodeb Saesneg un dudalen hefyd.
- Deunydd Cefnogi gan gynnwys CVau a bywgraffiadau o bersonél allweddol a darpar Benaethiaid Adranau (HoD's)
- Datganiad Ysgrifennwr yn trafod tarddiad y syniad ac unrhyw syniadau sydd gennych ynghylch datblygu'r stori ymhellach. Dylech hefyd amlinellu sut y mae'r prosiect hwn yn cyd-fynd â'ch cynlluniau gyrfa fel ysgrifennwr sgriniau – 1 tudalen.
- Datganiad Cyfarwyddwr yn amlinellu'r agwedd greadigol at y prosiect, gan gynnwys sut yr hoffech wireddu'r syniad (a allai gynnwys moodboards), y gynulleidfa rydych eisiau ei chyrraedd a pham eich bod eisiau gwneud y ffilm hon ar yr adeg yma yn eich gyrfa- 1 tudalen
- Datganiad Cynhyrchydd yn ystyried y farchnad a'r gynulleidfa ar gyfer y ffilm, y strategaeth greadigol, y dichonolrwydd ar gyllideb isel, strategaethau posibl ar gyfer codi rhagor o arian.
- Dylech hefyd amlinellu sut rydych yn bwriadu gweithio gyda'r tîm drwy'r datblygiad ac at gynhyrchu a sut y mae'r prosiect hwn yn cyd-fynd â'ch cynlluniau personol / rhai'r cwmni- 1 tudalen
- Enghraifft o waith yr Ysgrifennwr(wyr), megis: sgript hyd nodwedd ar gyfer ffilm neu deledu, llwyfan neu ddrama radio.
- Dolenni ar lein i ffilmiau byr, teledu, hysbysebion, fideos cerdd a gosodiadau / sioeau orielau sy'n dangos dawns weledol y cyfarwyddwr.

Byddwn hefyd yn asesu prosiectau yn erbyn y meini prawf canlynol:

- Ansawdd a gwreiddioldeb y syniadau
- Ehangder amrywiaeth yr ymgeiswyr
- Sut y mae'r prosiectau'n cyd-fynd â dyheadau gyrfa'r ymgeiswyr
- Gallu'r timau i wireddu eu prosiectau mewn amgylchedd o gyllidebau bychan.
- Dealltwriaeth o'r ddarpar gynulleidfa ar gyfer y prosiectau

Rhaid i bob prosiect:

- Gynnwys defnyddiau ymgeisio llawn (gweler uchod)
- Gynnwys o leiaf un aelod o'r tîm â chredyd proffesiynol yn eu maes
- Fod yn gallu cymhwyso fel Prydeinig yn unol â chanllawiau yr Adran Diwylliant, Cyfryngau a Chwaraeon a bod yn gymwys am Ryddhad Trethi Film y DU. Mae canllawiau ar <http://www.bfi.org.uk/supporting-uk-film/british-certification-tax-relief>
- Fod yn gallu cael dosbarthiad BBFC o ddim mwy na '18' ar ôl ei orffen. Gweler: <http://www.bbfc.co.uk/what-classification/guidelines>

Efallai na fydd prosiectau sydd eisoes wedi derbyn cefnogaeth ariannol gan drydydd partion (e.e. arian cyn datblygu) yn gymwys ar gyfer y fenter Cinematic. Os yw eich prosiect eisoes wedi derbyn cefnogaeth ariannol, mae'n rhaid i chi ddatgelu telerau'r buddsoddiad a chynnwys unrhyw gytundebau yn eu cylch gyda'r cais.

Y BROSES YN FANWL

RHESTR HIR A CHYFWELIAD

Anfonir e-bost atoch i gadarnhau derbyn eich cais.

Os na fydd unrhyw ddefnyddiau neu wybodaeth wedi'u cynnwys, byddwn yn cysylltu â chi i ofyn am ragor o fanylion. Os na fyddwch yn cyflenwi'r defnyddiau angenrheidiol o fewn pum diwrnod mae Ffilm Cymru Wales yn cadw'r hawl i wrthod eich cais.

Ni fydd defnyddiau sy'n cyrraedd ar ôl y terfyn amser yn cael eu hystyried gan y panel dewis, oni bai y gofynnwyd amdany'n nhw.

Byddwn yn asesu pob cais cyflawn ac yn paratoi rhestr hir o brosiectau rydyn ni o'r farn sy'n cysylltu'n greadigol ac yn gyffrous ac yn fwyaf tebyg o gael eu gwireddu ar gyllideb isel. Bydd pob cais arall yn cael ei wrthod.

Gwahoddir hyd at 15 o dimau ar 10 ac 11 Tachwedd 2016 i gyfweliad gan banel dewis yn cynnwys cynrychiolwyr o Ffilm Cymru Wales, Sefydliad Ffilm Prydain ac S4C ac ar ôl hynny gwahoddir hyd at 10 o dimau i gymryd rhan yn y cyfnod datblygu nesaf. Bydd yn rhaid i bob aelod o'r tîm fod yn bresennol yn y cyfweliad.

RHESTR FER: Y CYFNOD DATBLYGU

Ar ôl cael ei ddewis, bydd eich tîm yn mynychu digwyddiad hyfforddi ar 21 a 22 Tachwedd 2016 lle byddwch yn trafod agweddau ymarferol cynhyrchu ffilmiau ar gyllideb isel ac yn ystyried y gynulleidfa ar gyfer, a photensial, eich prosiect. Efallai y bydd yn rhaid i dimau a fydd yn cymryd rhan gyfrannu £250 at yr hyfforddiant hwn.

Mae cefnogaeth ar gael i'r rhai sy'n cymryd rhan gyda ffioedd cyrsiau, costau gofal plant, teithio a llety ar gyfer bod yn bresennol mewn sesiynau hyfforddi / cyfarfodydd os bydd angen. Bydd penderfyniadau ynghylch dyrannu cefnogaeth yn cael ei wneud ar sail pob achos yn unigol.

Cofiwch: Mae Cinematic yn ceisio, gymaint ag sy'n bosibl, gael gwared ar unrhyw rwystr ariannol i gymryd rhan. Os ydych â diddordeb mewn ymgeisio ond yn teimlo efallai na fyddwch yn gallu talu'r ffi a / neu y byddai angen cefnogaeth ychwanegol i fod yn bresennol, rydym yn eich annog yn gryf i gysylltu â ni ar, yn y lle cyntaf, adam@ffilmcymruwales.com. Bydd anghenion unigol yn cael eu trafod yn unigol ac yn hollol gyfrinachol.

Byddwch yn cael cynnig cyfraniad datblygu o hyd at £5,000 ar gyfer unrhyw addasiadau fydd eu hangen yn y driniaeth ac ar gyfer drafft cyntaf sgript y ffilm. Bydd yn rhaid ad-dalu unrhyw arian datblygu ar ddiwrnod cyntaf prif ffotograffiaeth y ffilm (a fyddwch wedi cael ei dewis i gael arian cynhyrchu gan gynllun Cinematic ai peidio).

Bydd cytundeb datblygu rhwng Ffilm Cymru Wales a'r tîm cynhyrchu ffilm / deilydd hawliau yn dangos telerau datblygu'r prosiect a bydd arian yn cael ei ryddhau yn erbyn llif arian a gytunwyd.

Os na fydd y prosiect yn symud ymlaen ddigon wrth ddatblygu, neu os bydd y tîm yn penderfynu peidio â symud ymlaen, daw'r cytundeb datblygu i ben a ni roddir rhagor o arian na thaliadau.

Bydd unrhyw brosiectau Cymraeg a ddewisir yr adeg yma'n derbyn rhagor o gefnogaeth ar gyfer costau cyfieithu.

Bydd y cyfnod hwn yn canolbwyntio ar ddatblygu sgript y ffilm ac ar ddechrau pecynnu prosiectau. Ar y cyd â Ffilm Cymru Wales, byddwch yn trafod anghenion eich prosiect a drafft o'ch cynllun datblygu. Ar ôl y drafodaeth hon, efallai y byddwch yn cael eich cyflwyno i fentoriaid ac arbenigwyr addas y diwydiant a fydd yn rhoi cyngor i chi yn benodol ynghylch eich prosiect. Bydd timau hefyd yn gweithio ar gynllun marchnata a dosbarthu. Gyda chefnogaeth Warner Music Supervision, bydd timau'n elwa ar gyngor penodol ynghylch trwyddedu cerddoriaeth ar gyfer eu prosiect.

Bydd disgwyl i chi weithio ar y cyd, ystyried y cyngor a geir a dal i ddatblygu eich pecyn, gan bwysleisio nid yn unig eich gallu i ddarparu prosiect creadigol gadarn ond hefyd eich gallu i weithio o fewn cyllideb dynn.

DEWIS Y TRI TERFYNOL

Ar 22 Mai 2017, bydd prosiectau'n cael eu hail gyflwyno ac yn cael eu hasesu gan banel dewis.

Bydd pob tîm yn ail gyflwyno eu prosiectau ac yn trafod y cynnydd hyd yma ar 22 a 23 Mehefin 2017,.

Yn dilyn y cyfarfod hwn, bydd tri thîm yn cael eu dewis i symud ymlaen i'r cam nesaf.

Bydd y prosiectau na fydd yn symud ymlaen yn dod o dan y darpariaethau trosglwyddo hawliau sydd yn y cytundeb datblygu.

DATBLYGU'R CYFNOD TERFYNOL

Bydd pob un o'r prosiectau / timau a ddewisir yn derbyn cyfraniad datblygu pellach o hyd at £5,000 ar gyfer addasu'r sgript ac at gostau cyn cynhyrchu, gan gynnwys castio, casglu criw, lleoliadau, cyllideb ac amserlen cynhyrchu.

Efallai y bydd Cynhyrchwyr Gweithredol yn cael eu penodi ar y prosiect yr adeg yma i helpu ymhellach gyda gwaith cyfreithiol, y cau ariannol, cynhyrchu a darparu'r ffilmiau.

Drwy Warner Music, bydd pob tîm yn dal i dderbyn cyngor ynghylch trwyddedu cerddoriaeth. Yn ôl y gofyn ac yn dibynnu ar anghenion y cynhyrchiad, bydd Warner Music yn darparu Arolygaeth Gerddorol ar gyfer y ffilm wrth iddi symud ymlaen drwy'r cyhyrchiad.

Drwy Fields Park Media, bydd timau'n gallu trafod yr amrywiaeth o gymorth ychwanegol sydd ar gael ar gyfer eu cynyrchiadau. Gallai cefnogaeth o'r fath gynnwys gwasanaethau ôl gynhyrchu, arbenigedd mewn creu deunyddiau gwerthu a marchnata megis riliau arddangos (sizzle), deunyddiau hyrwyddo a darnau codi blys, gwasanaethau cysylltiadau cyhoeddus a chynllunio a phrynu'r cyfryngau.

Bydd y penderfyniad pryd y bydd prosiectau'n symud i gynhyrchu yn gyfan gwbl yn ôl disgrisiwn Ffilm Cymru Wales, yn cydweithio â Sefydliad Ffilm Prydain ac S4C. Dylid cofio nad yw bod ymhlith y tri sydd wedi'u dewis yn golygu o angenrheidrwydd y bydd arian ar gael ar gyfer cynhyrchu.

Bydd timau'n cael eu galw i drafod cynnydd gyda phanel yn cynnwys cynrychiolwyr o brif arianwyr y cynllun cyn y ceir caniatâd i symud ymlaen.

Dim ond y prosiectau hynny sydd wedi cyrraedd pwynt priodol yn eu datblygiad creadigol ellir eu hystyried ar gyfer symud ymlaen ac efallai y bydd gofyn gwneud rhagor o waith datblygu cyn y gellir ymrwymo i gynhyrchu.

AMODAU ARIANNU

DATBLYGU

Os bydd eich prosiect yn cael ei ddewis byddwch yn dod yn rhan o gytundeb datblygu gyda Ffilm Cymru Wales a bydd yr amodau a'r telerau'n cynnwys y canlynol:

- Bydd y timoedd yn caniatáu hawl unigryw i Ffilm Cymru Wales ariannu, datblygu a chynhyrchu'r prosiect.
- Os bydd eich prosiect yn seiliedig ar unrhyw waith sylfaenol, bydd gofyn i chi gael hawliau neu brofi y gallwch gael hawliau (neu opsiwn dros) y gwaith sylfaenol hwnnw a fydd yn ddigon i chi allu gwneud un ffilm nodwedd.
- Ni fydd Ffilm Cymru Wales angen aseiniad o hawliau yn y prosiect yn ystod y cyfnodau datblygu ond os na fydd y prosiect yn cael ei ddewis i symud ymlaen fel rhan o Cinematic ac yna yn cael ei gynhyrchu gan naill ai'r un a / neu arianwyr gwahanol- byddwn yn gofyn am ad-daliad o'r arian datblygu ynghyd â chredyd penodol ar ddiwedd y cynhyrchiad (i gynnwys cyfeiriad at ein partneriaid a'r Loteri Genedlaethol).
- Os trosglwyddir hawliau (turnaround) bydd y timoedd gwneud ffilmiau'n gallu datblygu'u prosiectau ymhellach y tu allan i fenter Cinematic.
- Cyn trosglwyddo hawliau, ni ddylai timoedd a phrosiectau ymgeisio am, na derbyn, arian datblygu ychwanegol, oddi wrth unrhyw drydydd partïon heb gymeradwyaeth o flaen llaw oddi wrth Ffilm Cymru Wales.

CYNHYRCHU

Unwaith y bydd prosiect wedi'i dderbyn ar gyfer ariannu'r cynhyrchiad, bydd gofyn i'r tîm ymgorffori cwmni cyfyngedig ac aseinio hawliau i'r ffilm i'r cwmni hwnnw er mwyn galluogi'r cwmni i gynhyrchu'r ffilm.

Y cwmni cynhyrchu fydd yn gyfrifol am y gwaith cyn cynhyrchu, y prif ffotograffiaeth, yr ôl gynhyrchu a darparu'r ffilm ar ôl ei gorffen.

Bydd Ffilm Cymru Wales ac unrhyw arianwyr perthnasol yn dod yn rhan o gytundebau ariannu gyda'r cwmni cynhyrchu ar gyfer ariannu'r ffilm.

Bydd Ffilm Cymru Wales yn dod yn rhan o Gytundeb Ariannu Cynhyrchiad ar gyfer talu'r arian ymlaen llaw a ddaw o fuddsoddiad Sefydliad Ffilm Prydain a Ffilm Cymru Wales, bydd yr Ariannydd Credyd Treth yn dod yn rhan o gytundeb ariannu Credyd Treth ac, os yn berthnasol, bydd S4C yn darparu cytundeb trwydded. Bydd unrhyw fuddsoddiad preifat hefyd yn cael ei ddarparu yn unol â chytundeb ar wahân ynghylch telerau buddsoddi.

Bydd prif amodau a thelerau ariannu cynhyrchiad, o fewn Cytundeb Ariannu Cynhyrchiad Ffilm Cymru Wales, gan gynnwys y gofynion canlynol:

- Cymeradwyaeth ynghylch cyllideb a threfnu'r cynhyrchiad (gweler manylion pellach isod)
- Cymeradwyaeth ynghylch y cynllun ariannu a'r telerau adennill costau gan gynnwys rhannu elw net yn erbyn buddsoddiadau.
- Cymeradwyaeth ynghylch y sript.
- Cymeradwyaeth ynghylch y cast a'r Penaethiaid adran allweddol.
- Cymeradwyaeth ynghylch y llif arian a thynnu arian.
- Sefydlu cyfrif pwrpasol ar gyfer y cynhyrchiad gyda llofnodwyr cymeradwy.
- Yswiriannau'r cynhyrchiad – Ffilm Cymru Wales, Sefydliad Ffilm Prydain a ble bo'n berthnasol S4C, i'w henwi fel rhai ychwanegol sy'n cael eu hyswiro.
- Darpariaethau ar gyfer rheoli unrhyw danwariant neu orwariant
- Cymeradwyaeth o hyfforddeion y cynhyrchiad – o leiaf dair swydd gyda thâl / neu'n gweithio fel rhan o raglen brentisiaeth wedi'i chytuno.
- Darpariaethau hawlfraint a diogeledd.
- Cymeradwyaeth o hawliau sylfaenol a phob cytundeb clirio.
- Darpariaethau clodrestr a logo
- Ymgynghori a chymeradwyo trwy'r ôl gynhyrchu, gan gynnwys cymeradwyo'r toriad terfynol.
- Adnabyddiaeth a thelerau penodi'r asiant gwerthu a'r holl ddsbarthwyr.
- Strategaeth gwerthu, dosbarthu ac arddangos.
- Penodi asiant casglu
- Cyhoeddusrwydd
- Darpariaethau terfynu

Bydd Ffilm Cymru Wales (yn gweithredu ar ran a chyda Sefydliad Ffilm Prydain, S4C, unrhyw fuddsoddwr preifat a Fields Park Ltd) yn darparu'r holl gymeradwyaethau y cyfeirir atynt uchod.

Bydd Ffilm Cymru Wales yn cymryd rhan o hawlfraint yn y ffilm a'r hawliau cysylltiedig nes ei fod wedi adennill ei fuddsoddiad ecwiti (gweler cyllid ac adennill isod).

Yn achos prosiect yn Gymraeg, bydd S4C yn cael hawliau unigryw Teledu Am Ddim y DU a hawliau cysylltiedig ar lein gyda'r darpariaethau priodol i ddal arian yn ôl i ganiatáu digon o amser i arddangos y ffilm ar lwyfannau eraill yn y DU gan gynnwys VOD, Pay TV ayb.

Rhaid i bob ffilm bod yn gymwys fel 'Ffilm Brydeinig' o dan Brawf Diwylliannol yr Adran Diwylliant, Cyfryngau a Chwaraeon / Sefydliad Ffilm Prydain (www.hmrc.gov.uk/films/index.htm) a, pan fydd yn cael ei ddarparu, mae'n rhaid iddi fod yn gymwys i gael tystysgrif oddi wrth Fwrdd Dosbarthiadau Ffilm Prydain nad yw'n cyfyngu'n fwy na '18' at ddefnydd yn y theatr ac ar fideo.

Y cwmni cynhyrchu fydd yn gyfrifol am ofyn am Gredyd Trethi Ffilm y DU oddi wrth Gyllid a Thollau Ei Mawrhydi ac, ar ôl ei dderbyn, bydd yn talu'r budd ariannol llawn yn uniongyrchol i'r ariannydd credyd treth fel ad-daliad o'i arian y mae wedi'i dalu.

Penodir asiant casglu trydydd parti sefydledig i weinyddu, casglu a dosbarthu'r holl arian a ddaw o elw defnyddio ac arddangos y ffilmiau.

Dim ond ar ôl sefydlu cytundeb ariannu cynhyrchiad y bydd Ffilm Cymru Wales yn cyflwyno arian a hynny cyn belled â bod yr amodau safonol ynghylch yr ariannu sydd yn y Cytundeb Ariannu Cynhyrchiad wedi'u bodloni.

Hoffai Ffilm Cymru Wales hyrwyddo ymarfer cynaliadwy mewn gwneud ffilmiau. Bydd canllawiau'n dangos sut i wneud eich cynhyrchiad yn fwy cynaliadwy neu'n fwy 'wyrdd' ar gael i'r timoedd trwy Albert- (<http://wearealbert.org/>)

Dylai pob cynhyrchiad ffilm geisio talu sylw i Safonau Amrywiaeth BFI <http://www.bfi.org.uk/sites/bfi.org.uk/files/downloads/bfi-film-fund-diversity-standards-2015-11-27.pdf>

CYLLIDEBAU

Bydd cyllideb pob cynhyrchiad yn cynnwys dyraniad tuag at:

- Ffioedd cyfreithiol y cynhyrchiad
- Costau cynllun Cinematic
- Costau llif arian credyd treth y DU (os o gwbl)
- Cyfraniad yn y gyllideb at y Gronfa Buddsoddi Sgiliau o 0.5% o wariant craidd y ffilm yn y DU (yn amodol ar uchafswm SIF)
- Costau darparu deunyddiau (gan gynnwys deunyddiau darparu ar gais Ffilm Cymru Wales a'i bartneriaid)
- Yswiriannau cynhyrchu safonol ac yswiriant Gwallau ac Hepgoriadau y mae'n rhaid enwi Ffilm Cymru Wales, Sefydliad Ffilm Prydain ac, yn achos cynhyrchiad Cymraeg, S4C. fel rhai sy'n cael eu hyswiro.
- Costau archwilio
- Arian Wrth Gefn
- Costau marchnata, yr uned Cysylltiadau Cyhoeddus ac EPK
- Digon o arian i glirio hawliau byd eang mewn pob cyfrwng ar gyfer cerddoriaeth a / neu ffilm archif ac unrhyw gyfraniadau eraill a ddefnyddir yn y ffilm.

Bydd gofyn i chi gydymffurfio â'r holl ddeddfwriaeth berthnasol gan gynnwys Iechyd a Diogelwch a rheolau a rheoliadau'r Isafswm Cyflog Cenedlaethol / Cyflog Byw Cenedlaethol ar gyfer yr holl gast a chriw a gyflogir.

ARIAN AC ADENNILL

Bydd credyd Treth Ffilm y DU yn rhan o'r arian ar gyfer y gwahanol ffilmiau, a hefyd ffi trwydded S4C ar gyfer unrhyw gynhyrchiad Cymraeg.

Bydd Ffilm Cymru Wales yn adennill yr arian y bydd yn ei gyfrannu (ar ran ei hunan ac ar ran Sefydliad Ffilm Prydain) i Ffilm Cymru Wales a Sefydliad Ffilm Prydain o'r derbyniadau gros pro rata pari passu a hefyd unrhyw fuddsoddiad ecwiti arall yn y ffilmiau. Yn amodol ar delerau unrhyw fuddsoddiad preifat y bydd gofyn ei ad-dalu ar delerau gwell, bydd gan y cwmni cynhyrchu hawl i goridor o ddim llai na 30% o 100% o'r derbyniadau gros h.y. y cyfan o'r arian a dderbynnir gan yr asiant casglu llai'r didyniadau arferol o gomisiynau a threuliau y cytunwyd gyda'r asiant casglu / asiant gwerthu / dosbarthwr.

Unwaith y bydd yr arianwyr wedi adennill eu buddsoddiadau a'r prosiect yn cyrraedd elw net, bydd y coridor yn codi i 50%.

Disgwylir y bydd y coridor hwn yn cael ei rannu mewn modd cyfiawn rhwng y rhai oedd â rhan yn y ffilm gan gynnwys yr ysgrifennwr, cyfarwyddwr, cynhyrhydd unigol, y cast, criw ac unrhyw gwmnïau a oedd yn darparu gwasanaethau ar ddisgownt sylweddol.

Y cwmni cynhyrchu fydd yn gyfrifol am ymgeisio i Gyllid a Thollau Ei Mawrhydi am Gredyd Treth Ffilm y DU.

Dylai'r cwmni cynhyrchu hefyd gael hawl i dderbyn cymaint o Hawl Ecwiti Cynhyrhydd â'r arian a daeth fel Credyd Treth y DU ar gyfer y ffilm, i'w ad-dalu gyda chyfraniadau ecwiti ariannydd. Bydd y swm yma'n cael ei ddal mewn 'Blwch Ar Glo' trwy gynllun Sefydliad Ffilm Prydain a bydd ar gael i gefnogi datblygiadau, cynhyrchu a gweithgaredd hyfforddi yn y dyfodol yn ôl cytundeb rhwng y cynhyrhydd a Sefydliad Ffilm Prydain.

Rhaid i asiant casglu annibynnol gasglu'r holl refeniw'r a ddaw i'r ffilm.

ADBORTH

Oherwydd ein bod yn disgwyl llawer iawn o gyflwyniadau, rydym yn ymddiheuro ond allwn ni ddim rhoi adborth ar eu cyflwyniad i ymgeiswyr nad ydyn nhw'n derbyn gwahoddiad i'r panel dewis cyntaf ar 10fed ac 11eg Tachwedd 2016.

Mae gan Ffilm Cymru Wales bolisi ar gyfer trin Adborth a Chwynion, mae rhagor o wybodaeth ar:
<http://www.ffilmcymruwales.com/index.php/en/company-details-and-contact/policies>

Cofiwch- mewn amgylchiadau ble mae'r cais ynghylch cyflwyniad creadigol, megis sgript, nid yw Ffilm Cymru Wales yn gallu ail asesu sgript y mae wedi'i gwrthod ar sail ei theilyngdod creadigol.

CYSWLLT

Os hoffech holi ynghylch unrhyw beth ynghylch y cynllun nad yw wedi'i gynnwys yn y canllawiau, e-bostiwch cinematic@ffilmcymruwales.com

Os ydych angen copi caled, print bras neu fersiwn sain o'r canllawiau cysylltwch â Ffilm Cymru Wales ar cinematic@ffilmcymruwales.com neu 02920 766931.

DYDDIADAU ALLWEDDOL

04/08/2016	Ar agor i Geisiadau
30/09/2016	Terfyn amser ceisiadau
10/11/2016	Cyfweliadau panel
11/11/2016	Cyfweliadau panel
14/11/2016	Bydd 10 tîm yn cael eu dewis a'u hysbysu
21/11/2016	Diwrnod 1af – holl dimoedd / cyfranogwyr
22/11/2016	2il diwrnod – holl dimoedd / cyfranogwyr
I'w gadarnhau	Diwrnod ymarfer cynaliadwyedd, Caerdydd, ar gyfer cynhyrchwyr
Tachwedd 2016 - Mai 2017	Datblygu a hyfforddi'n parhau
I'w gadarnhau	Sesiynau mentora undydd i'w trefnu gyda'r timoedd ar ôl eu dewis
I'w gadarnhau	Sesiynau ar lein- I'w cadarnhau
22/05/2017	Timoedd yn ail gyflwyno prosiectau i gynnwys sgriptiau ffilm
22/06/2017	Cyfweliadau panel i ddewis y tri phrosiect terfynol
23/06/2017	Cyfweliadau panel i ddewis y tri phrosiect terfynol
26/06/2017	Dewis tri thîm

ffilm

CYMRU WALES

S4C MEDIA CENTRE
PARC Tŷ GLAS
LLANISHEN
CARDIFF
CF14 5DU

+44(0)2920 766931
enquiries@ffilmcymruwales.com
www.ffilmcymruwales.com



Supported by
The National Lottery[®]
through the Arts Council of Wales

Cefnogwyd gan
Y Loteri Genedlaethol
trwy Gyngor Celfyddydau Cymru



Cyngor Celfyddydau Cymru
Arts Council of Wales